

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 16eg o Orffennaf 2018 am 7:00pm

Presennol: Cyngorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cyngorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Bethan Lawton, Peter Parker, Griffith Evan Thomas

- Ymddiheuriadau: Cyngorydd Simon Jones
- Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cyngorydd ddatgan buddiant.
- Cyngor Gwynedd - Clwb Ieuentid Bryncrug:

Croesawyd Swyddog o Gyngor Gwynedd i'r cyfarfod, a derbyniwyd gwybodaeth am fodel newydd y gwasanaeth ieuentid, sef y model sirol. Gyda'r model sirol:

- Bydd un swyddog llawn amser yn gweithio yn ardal Ysgol Tywyn a dalgylch Bro Idris, Dolgellau.
- Bydd tri aelod o staff rhan amser (6 awr yr wythnos) yn gweithio yn ardal Ysgol Tywyn a dalgylch Bro Idris, Dolgellau.
- Bydd tri phrosiect yr wythnos yn ardal Ysgol Tywyn a thri phrosiect yn dalgylch Bro Idris.
- £50,000 ar gael ar gyfer pontio rhwng yr hen wasanaeth a'r gwasanaeth newydd. Yr arian ar gael ar gyfer cynorthwyo Cyngorau Cymuned sydd yn awyddus i ariannu clwb ieuentid traddodiadol yn eu cymuned.
- Byddai cyflogi Cyngor Gwynedd i redeg clwb ym Mryncrug am oddeutu 30 wythnos yn £1,350.

PENDERFYNIAD:

I ddiolch am y wybodaeth gan y Swyddog.

I roi contract i Gyngor Gwynedd redeg y Clwb Ieuentid ym Mryncrug ar ran y cyngor (un noson yr wythnos am 30 wythnos). Ar gost £1,581.60 (y Ganolfan ar gael am ddim gan gorff arall).

CCB i dalu £1,350 yn 2018/19 a gofyn i CG ariannu'r gweddill, sef £231.60 allan o'r gronfa £50,000 (cronfa pontio).

Y clwb I fod fel yr isod:

-2 aelod o staff dwyieithog (C/S)

-Cymysgedd o weithgaeddau, sy'n cynnwys allan yn y gymuned

-Gan bod y Neuadd am ddim, bydd disgwyl i'r clwb roi cymorth i redeg y neuadd (gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y Ganolfan) - e.e. mynychu ambell bwyllgor y Ganolfan

-Talu £1 y sesiwn. Arian i'w gadw gan y clwb, gyda'r plant i benderfynu sut i'w wario (trefnu rhyw fath o gyngor bach, fydd yn penderfynu beth i wario a pa weithgareddau)

Cyngor Cymuned Bryncrug i beidio rhoi mwy o roddion, heblaw am geisiadau sydd yn eithriadol o bwysig.

4. Derbyn cofnodion 18 Mehefin 2018:

PENDERFYNIAD:

I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda un cywiriad, sef eitem 7 - Clwb Padlo Dysynni. Dylai ddarllen Cist Gwynedd yn hytrach na Cost Gwynedd.

5. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101613	£178.62
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101614	£44.60
Dail Dysynni	Rhodd	101615	£100.00
Cwmni Tân Llŷn	Profi offer tân	101616	£33.00
Playsafety	Adroddiad ROSPA	101617	£88.20
B Gwilym	Stamps	101618	£84.40
B Gwilym	Teleffon	101619	£30.00
B Gwilym	Deunydd swyddfa	101620	£20.10
Jones & Jones	Pentref	101621	£304.50

PENDERFYNIAD:

I dalu'r anfonebau.

6. Arwydd Cefn Coed:

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn iddynt symud yr arwydd Cefn Coed a'i roi wrth ymyl tai Cefn Coed, gan roi arwydd sydd yn dweud Ffordd Cefn Coed ym mhle mae'r arwydd ar hyn o bryd.

7. Cyflwr tai gwag yn y pentref:

Adroddwyd bod cyflwr gwael ar yr eiddo canlynol: 3 Glandwr, 5 Cefn Coed a'r Eglwys.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Uned Tai gwag, uned Rheolaeth Adeiladu, uned Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd i'w hysbysu bod llygod mawr yn 3 Glandwr, chwyn yn tufu o'r wal yn 5 Cefn Coed a bod facias 5 Cefn Coed wedi disgyn. Gofyn sut y medr delio gyda eiddo o'r fath.

8. Tyfiant ar ochr yr Afon Fathew sy'n achosi rhwystr gweledol i yrwyr:

PENDERFYNIAD: Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn eu hysbysu bod tyfiant ger Pont Felindre yn rhwystro gyrwyr rhag gweld yn glir, y tyfiant yn gyffredinol ar hyd yr afon. Gofyn am visibility clearance.

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Dyddiadau i'r Dyddiadur - Nosweithiau'r Awdurdod - Hydref 2018):

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10. Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd - arwydd ar goll ar lwybr rhif 2:

Cydnabyddiaeth o lythyr Cyngor Cymuned Brynchrug, a gwybodaeth bod gosod arwydd newydd ar raglen gwaith yr uned hawliau tramwy.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

11. Cae Chwarae - Cais i gynnal parti pen-blwydd:

PENDERFYNIAD: I roi caniatâd ar yr amodau canlynol:
-Ffi llogi o £30, a chyfraniad o £20 tuag at drydan
-I gael yswiriant atebolrwydd
-I fod yn gyfrifol am glirio unrhyw sbwriel ar ôl y parti
-I fod yn gyfrifol am lanhau toiledau ar ôl y parti
-I drefnu stiwardiaid, a bod ceir yn gadael y cae i'r ffordd mewn modd diogel
Ysgrifennu at Mr David Owen er mwyn diolch iddo am ei waith yn gofalu am y cae, sef rhoi biniau ysbwriel allan a chasglu sbwriel.

12. Cae Chwarae – Adroddiad ROSPA:

Yr oedd yr adroddiad yn awgrymu y dylid cael gwared o'r siglen, a rhoddwyd manylion boltiau sydd angen sylw.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr adroddiad.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

PENDERFYNIAD: Cyngorwyr Richard Evans ac Alan Jones i gyfarfod y Clerc yn y Pafiliwn er mwyn llunio rhestr o waith sydd angen ei wneud ar y Pafiliwn.

14. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

- Ysbyty Tywyn a'r Cylch yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed mewn dwy flynedd. Gofynnwyd am awgrymiadau i'r dathliadau.
- Y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol wedi bod yn dathlu yn ddiweddar, sef 70 mlynedd ers sefydlu'r gwasanaeth.

- Ffyrdd bach Dwyfor wedi eu torri i safon well na ffyrdd Meirionnydd.
- Llwybr y tu ôl i Dolithel angen ei dorri.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

15. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: Y Clerc i ysgrifennu darn ar gyfer Dail Dysynni, gan gynnwys gwybodaeth am Glwb Ieuenctid Brynchrug, sef bod Cyngor Cymuned Brynchrug wedi sicrhau gyda chydweithrediad y Ganolfan bod y clwb yn aros ar agor yn y pentref.
I gynnwys eitem ar agenda mis Medi, sef eitem er mwyn trafod llwybrau cyhoeddus a giatiau.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:50pm

Llofnod y Cadeirydd